

Awgrymiadau gwych ar gyfer cynnal digwyddiadau Dewch at Eich gilydd Bwyd am Oes:

Bydd yr awgrymiadau gwych hyn yn eich cynorthwyo i wneud eich digwyddiadau Dewch at Eich Gilydd yn llwyddiant. Gall unrhyw un gynnal digwyddiad Dewch at Eich Gilydd wedi'r cyfan. Felly, p'un a ydych yn coginio, yn tyfu neu'n bwyta gyda'ch gilydd, dyma ychydig o bethau i chi eu hystyried:

Gwnewch yn siŵr bod y lleoliad a ddefnyddiwyd ar gyfer eich sesiwn yn addas ar gyfer y math o ddigwyddiad rydych yn ei gynnal. A yw'n ddigon mawr? A oes rhywle y gall pobl olchi eu dwylo os ydych yn cynnal gweithgareddau coginio?

Mae'n bosibl y bydd pobl yn mynychu sydd â phroblemau symudedd. Gwnewch yn siŵr bod gan bawb ddigon o le i gymryd rhan a rhyngweithio ag eraill. Mae'n ymwneud â bod yn gynhwysol.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl, fel grŵp sy'n dod o gartref gofal lleol, yn trefnu cludiant i'r lleoliad ac oddi yno. Ceisiwch fod yn ymwybodol o hyn er mwyn osgoi dechrau cyn i bobl gyrraedd a gorffen mewn da bryd iddyn nhw gael eu casglu.

Dylech gael nod bob tro.

Eglurwch wrth bawb beth y byddant yn ei gyflawni drwy'r dasg a pha mor hir rydych yn disgwyl i hyn ei gymryd. Os yn bosibl, dangoswch lun neu sampl o'r dasg wedi'i chwblhau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer digwyddiadau coginio neu dyfu.

Rhowch gyfarwyddiadau cam wrth gam eglur iawn a darparwch yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar cywir. Defnyddiwch iaith y bydd pawb yn ei deall. Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol y bydd pobl yn gwybod am beth rydych chi'n sôn.

Gadewch ddigon o amser ar gyfer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn eich digwyddiad Dewch at Eich Gilydd.

Gall pobl wneud camgymeriadau ond ceisiwch beidio â bod yn feirniadol. Yn lle hynny, **arhoswch yn gadarnhaol a helpwch nhw i ddysgu.**

Ceisiwch annog pobl i ofyn cwestiynau ac i feddwl ynghylch yr hyn maen nhw'n ei wneud a pham eu bod yn ei wneud.

Byddwch yn ymwybodol o ddiogelwch. Er enghraifft, os ydych yn gweithio mewn ysgol neu gartref gofal, bydd ganddyn nhw bolisi y gallwch gyfeirio ato. Os oes angen rhagor o gymorth neu gyngor arnoch ynglŷn â hyn, yna cysylltwch â ni yma yn Bwyd am Oes.

Gwnewch yn siŵr ei fod yn ddifyr ac yn hwyl. Y peth pwysicaf yw bod pawb yn cael amser da ac yn dod i adnabod ei gilydd ychydig yn well!